**Cofnodion cyfarfod 8fed o Dachwedd 2023 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr**

| **PRESENNOL** | |
|---|---|
| Gwilym Evans (Is-Gadeirydd) | Iola Owen |
| Iwan Harding | Louise Price |
| Emlyn Baylis | Nia Jones |
| Kevin Jones | Helen Sharp |
| Trystan Thomas | Rhys ap Gwilym |

| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
|---|---|---|
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan yr Is-Gadeirydd Gwilym Evans gan groesawu'r aelodau i gyfarfod mis Tachwedd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Llinos Haf Pritchard a'r Cynghorydd Kim Jones.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd bod dau fater i'w weithredu cyn y byddai'r cyngor yn gallu symud yn ffurfiol yn ei flaen. Dywedodd bod Pwyllgor Penodi'r Cyngor wedi cyfweld a'r unig ymgeisydd i'r swydd Clerc(ysgrifennydd) a Swyddog Ariannol y Cyngor sef Heather Jones neithiwr ac wedi cynnig y swydd iddi. Mae llythyr derbyn y swydd wedi ei dderbyn ai gyflwyno, hefyd llythyr ymddiswyddiad o fod yn Gynghorydd er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y swydd.<br><br>Derbyniwyd y ddau lythyr gan y Cyngor ac felly roedd Heather Jones yn gallu symud ymlaen fel Clerc Swyddogol y Cyngor. | |
| 1.1 | Cafwyd presenoldeb oddi wrth aelod o'r Cyngor. Fe gyflwynwyd adroddiad ar y materion canlynol:<br>i. Materion meysydd parcio o fewn y pentref<br>ii. Sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i ymdrin â gwastraff dynol mewn mannau lle mae cerbydau yn aros dros nos?<br>iii. Yr angen i gyflwyno llinellau melyn ar Ffordd i'r Glyn ar hyd y ffordd.<br>iv. Amserlen cwblhau gwaith ar yr offer gwefru cerbydau yn y maes parcio ger y llyn.<br>v. Trwydded flynyddol o fewn y Maes parcio<br>vi. National Grid yn cymryd lleoliadau drosodd a'r amser mae gwaith wedi ei gymryd ger maes chwarae y plant.<br>vii. Mae angen defnyddio maes parcio y bysus<br>viii. Ymddygiad wrth gymdeithasol<br>ix. Cyflwynwyd hefyd rhestr o waith sydd ei angen gan Gyngor Gwynedd.<br><br>Penderfynwyd byddai'r Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Kim Jones yn gweithio a'i gilydd ar yr eitemau. | **CLERC/ KJ** |
| 1.2 | Gorfodaeth 20 m.y.a. Nant Peris - derbyniwyd sylwad o Nant Peris bod dim gorfodaeth ar y cyfyngiad cyflymdra 20 m.y.a. a bod y cerbyd Go Safe heb fod yno ers ei gyflwyno. Y Cyngor i anfon at yr Heddlu ar y mater ond deallir nad yw gorfodaeth wedi cychwyn ar y cyfyngiad ar yr un lleoliad hyd yma. | **CLERC** |
| 1.3 | CCTV – Rhoddwyd adroddiad byr am y gost o gyflwyno sustem drwy Gyngor Gwynedd sef oddeutu £45 mil gan y Cynghorydd Iola Owen. Mae'r mater hwn yn parhau i dderbyn sylw gan y Cynghorydd Iola Owen a'r Cynghorydd Kim Jones. | **IO/KJ CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | Nid yw'r Heddlu wedi cadarnhau dyddiad cyfarfod cyhoeddus. | |
| 1.4 | Ail drafod penderfyniad y Cyngor (eitem 1.3 Cyfeiriad 11/10/2023) Cyfeiriad e-bost: clerc@llanberis.uk <mailto:clerc@llanberis.uk> Yn unol â Rheolau statudol derbyniwyd 7(8) cais i ail drafod, felly cyflwynwyd yr eitem am drafodaeth a phenderfynwyd mai cyfeiriad e-bost swyddogol y Cyngor fyddai clerc@cyngorllanberis.cymru <mailto:clerc@cyngorllanberis.cymru> | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Cynghorydd Emlyn Baylis ar eitem derbyn llythyr gan Grŵp Datblygu Llanberis | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ar faterion sirol gan y Cynghorydd Kim Jones, gweler yr adroddiad yn atodiad 1. Fe roddwyd datganiad gan y Cynghorydd Iola Owen bod angen cydnabod gwaith a diolch i'r Cynghorydd Kim Jones. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Hydref 2023 a'u derbyn. | |
| 4.2 | Gwariant ymrwymedig 2023-2024 (7 mis) - Cyflwynwyd adroddiad ar sefyllfa'r gyllideb am y flwyddyn ariannol a'i dderbyn. | **CLERC** |
| 4.3 | Cadarnhawyd taliad ar gyfer, Cyngor Gwynedd (Goleuadau Nadolig), Ad-daliad cyflogau i'r cyn clercod, HMRC ac am y Dorch (Sul y Cofio). | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref 2023 . | |
| 5.2 | Rheolau Sefydlog – cyflwynwyd a derbyniwyd y Rheolau Sefydlog . | |
| 5.3 | Roedd trefniadau ar gyfer Sul y Cofio mewn lle. Roedd y Cynghorydd Iwan Harding yn barod i gyflwyno'r dorch ar ran y Cyngor. | |
| 5.4 | Diogelwch Ffordd Glanrafon – nid oes unrhyw ddilyniant gan Gyngor Gwynedd ar y mater. | **CLERC** |
| 5.5 | Newid safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn – nid oes unrhyw ddilyniant gan Gyngor Gwynedd ar y mater. | |
| 5.6 | Dwyieithrwydd – Stryd Fawr. Nodwyd bod un busnes wedi gweithredu ar y Llythyr. Croesawyd y gwaith mae'r Fran las wedi ei wneud.<br>Roedd y Cyngor yn siomedig gyda'r arwydd uniaith ar gyfer Gwesty Fictoria sydd wedi ei ganiatáu gan Gyngor Gwynedd.<br>Mae arwydd uniaith Saesneg ynglŷn â'r cyfyngiad 20 m.y.a. wedi ei godi ar ddechrau'r pentref. Nid yw'r arwydd yn un swyddogol. | |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Llinellau melyn arfaethedig ger Tan y Rhaeadr – cefnogi, y Clerc i anfon cadarnhad o hyn i Gyngor Gwynedd. | |
| 6.2 | Llinellau melyn arfaethedig pen uchaf Stryd Ceunant - cefnogi, y Clerc i anfon cadarnhad o hyn i Gyngor Gwynedd. | |
| 6.3 | Dim dilyniant i'r gwaith arfaethedig i balmant ger y Llysoedd. | |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Gwaith i gofebion y Fynwent - dim gwaith wedi ei wneud hyd yma oherwydd bod y contractwr wedi bod ar ei wyliau a bod profedigaeth wedi bod yn nheulu un o'r gweithwyr. | **CLERC** |
| 7.2 | Asesiad Risg a pholisi Rheoli'r Fynwent – cyfarfod o'r pwyllgor wedi ei drefnu | **CADEIRYDD PWYLLGOR Y FYNWENT** |
| 7.3 | Ymestyn y fynwent – Derbyniwyd ymateb gan berchennog y tir ger y fynwent i gais y Cyngor am bryniant tir ar gyfer ymestyn y fynwent yn datgan nad | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | oedd am werthu rhagor o dir. Pwyllgor y Fynwent i symud y maen i adnabod tir ar gyfer Fynwent newydd ar gyfer y dyfodol. | |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGU) (CYMRU) 2012<br>**Datblygiad arfaethedig yn**: "Siemens Healthcare Diagnostics Products Ltd", Glyn Rhonwy, Llanberis<br>**Rwyf yn hysbysu bod**: Siemens Healthcare Diagnostics Products Ltd<br>**Yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio er mwyn:** Codi adeilad i ddarparu swyddfeydd a ffreutur (Dosbarth B1) gan gynnwys ardal storio sbwriel, mynediad, gwasanaethu, tirlunio a gwaith cysylltiedig arall. – **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL Y NADOLIG** | |
| 9.1 | Coed Nadolig - Trefniadau mewn llaw i'r Cynghorydd Emlyn Baylis fod ar gael i dderbyn y Coed. Y Contractwr i fod mewn cysylltiad. | **CLERC** |
| 9.2 | Goleuadau Nadolig - bydd Adran Goleuadau Stryd Cyngor Gwynedd yn gosod goleuadau ar bolion ychwanegol ac yn sicrhau bod y goleuadau yn cael eu rhoi ymlaen erbyn y Ffair Nadolig. | **CLERC** |
| 9.3 | I ddyddiad mae costau'r achlysur o ddeutu £3759 ac o fewn y gyllideb. Bydd angen talu i Seindorf Arian Deiniolen. | **CLERC** |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Rhoddwyd adroddiad am gyfarfod diweddar Llywodraethwyr Ysgol Dolbadarn. | |
| 10.2 | Rhoddwyd rhybudd bod y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Grŵp Datblygu Llanberis a bydd y llythyr hwn yn cael ei drafod yng nghyfarfod mis Rhagfyr. | **CLERC** |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad :** |

Atodiad 1

**Adroddiad Cyngor Cymuned Tachwedd.**

**Tai yn yr hen lyfrgell -** Y cais cynllunio i godi 3 tŷ ar safle'r hen lyfrgell wedi ei gymeradwyo. Mi fydd CG yn rhoi diweddariad cyson i mi ar y datblygiad fel Aelod Lleol ac yn caniatáu i mi weld y diweddaraf o ran y cynlluniau, lluniau a cherrig milltir y datblygiad pan fyddan nhw'n barod i'w rhannu. Mae angen annog trigolion Llanberis gofrestru gyda Tai Teg cyn gynted a phosib os oes ganddynt ddiddordeb yn y tai yma.

**Arwyddion –** Gwesty'r Fic wedi cael dau arwydd brown twristiaeth newydd o'r diwedd gan Cyngor Gwynedd ar ol gwneud cais a talu amdanynt cryn dipyn o fisoedd yn nol erbyn hyn. Y Parc Cenedlaethol wedi gosod dau arwydd ar giat ger y cattle grid (llwybr yr Wyddfa) yn dilyn fy ngais i drio lleihau swn i drigolion wrth i bobl gerdded i lawr o'r Wyddfa a hefyd i leihau sbwriel.

**Draen Brook House –** Y Cyngor yn disgwyl i Dwr Cymru gwblhau gwaith yma cyn allith nhw gychwyn gweithio ar y gyli.

**Bin Halford Hill -** Yn dilyn cwynion cyson fod bin masnachol Halford Hill ar y palmant yn ddyddiol ac yn rhwystro cerddwyr i allu mynd heibio, ac yn amhosib mynd heibio gyda chadair olwyn neu bram, mae'r Cyngor wedi anfon llythyr allan i'r perchennog er mwyn cyflwyno rhybudd ei fod yn rhwystr. Erbyn hyn mae'r bin rŵan wedi symud ar dir yr adeilad ond angen cadw llygaid.

**Marathon Eryri -** Diwrnod llwyddiannus, prin iawn oedd y cwynion ond fel yr ydym yn ymwybodol ein bod yn llai o feysydd parcio eleni o ran bod un Mynydd Gwefru wedi cau nes bydd y gwaith wedi ei gwblhau yno a bod y National Grid yn cadw cables yn yr un ble mae'r Coaches yn parcio fel rheol. Roeddent hefyd yn defnyddio darn eithaf mawr o faes parcio'r Fic ar gyfer eu marquees a oedd hefyd yn golygu ein bod wedi colli dipyn o lefydd parcio. Ar y cyfan, diwrnod llwyddiannus i'r trefnwyr a diolch i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith.

**Llinellau Melyn – 1)** Dipyn 'go lew o ymholiadau wedi dod yn yr wythnosau diwethaf am linellau melyn mewn mannau yn y pentref a mae hi'n her trio eu cael nhw! Gorchymyn wedi ei wneud gan CG am rhai Llainwen Uchaf ar y 25/10 ac yn dod i rym ar y 06/11 a'r ail rybudd yn y papur newydd ar y 1af o Dachwedd. Y Cyngor wedi archebu'r gwaith peintio ar gyfer y llinellau ond dim dyddiad eto.

**2)** Wedi cyfarfod trigolion Lon yr Eglwys yn dilyn dipyn o geir yn parcio ar y lon yn ystod yr Haf/Gwylia'r Banc. Y Cyngor ddim yn fodlon rhoi llinellau melyn yma gan ei fod o ddim yn broblem rownd y flwyddyn a gan mai hwn yw'r gwyn cyntaf yn yr ardal yma (y wahanol i achos Llainwen Uchaf). Y trigolion yn anhapus iawn am y penderfyniad ac am roi cwynion cyson i'r adran Draffig er mwyn cael rhywbeth yn i'w le.

**3)** Wedi cael dau gŵyn ynglŷn â ger Capel Coch a stryd Ceunant am geir yn parcio ar hyd ochr chwith i'r lon a cherbydau yn cael hi'n anodd dod allan o'u tai/cerbydau mawr methu mynd heibio. Pryder mawr ni fydd gwasanaethau brys yn gallu mynd heibio - cyfarfod swyddog o'r cyngor yma ar yr 8fed o Dachwedd i drafod.

**Camerau CCTV –** Holais Steven Edwards o Cyngor Gwynedd am gostau camerau CCTV. Dywedodd fod Cyngor Cymuned Bethesda newydd fod drwy'r un broses ond eu bod wedi cael 15 o gamerau, sy'n sefyllfa gwbl wahanol i Llanberis. Ond o rhan diddordeb mi roedd 15 camerau yn costio £15,000 iddynt a mae cost o £5,000 y flwyddyn wedyn i'r Cyngor er mwyn cynnal a chadw. Dim ond ariannu fydd y Cyngor Cymuned yn ei wneud, mi fydd y camerau wedyn yn nwylo'r Cyngor a'r Heddlu. Mae Steven Edwards wedi wedi cynnig i gwpl o aelodau fynd lawr i'r control room yn C'fon i weld syt maen't yn gweithio os oes gan rhywun ddiddordeb. Wedi holi am gost oddeutu 5 camera ar ol trafod yr angen gyda Nia PCSO, disgwyl ymateb ganddo cyn gallu gwneud ceisiadau am arian.

**Ardal Ni -** Tîm Ardal Ni CG wedi bod yn glanhau a thwtio Nant Peris a lonydd Maes Padarn 'ychydig ddiwrnodau cyn Marathon Eryri.

**Dol Eilian -** Dal i ddisgwyl am ddyddiad gan y Cyngor am waith i beintio bocs gwyn, dim parcio ger y dropped curb ar ôl cais gan drigolyn.

**Fferyllfa -** Diwrnod swyddogol i'r Fferyllfa agor i allu cynnig gwasanaethau yn 27/11/2023 pan fydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben yn swyddogol.
**Gwaith Claytons/Adra Tai –** Gwaith ar y tai a'r fflatiau yn Maes Padarn i fod i orffen erbyn diwedd fis Tachwedd/cychwyn Rhagfyr.
**Clwb Pêl-Droed Llanberis** - Fel aelod o'r pwyllgor, rwyf yn hapus i ddweud ein bod wedi bod yn llwyddiannus am gais gyda'r National Grid am £20,000 er mwyn prynu 'peiriant torri gwair' hollol newydd sy'n costio tua £25,000. Rydym wedi gwneud cais i Engie am y gwahaniaeth, fydd y peiriant yma yn gymorth mawr i Gae'r Ddol hefyd ar gyfer gemau plant.
**Y Glyn -** Dylai'r peiriannau talu ddim cymryd rhy hir i'w osod rŵan meddai Carwyn wythnos diwethaf'. O be ddwi ar ddeall eu bod wedi cyrraedd ond wedi bod yn cael trafferth gyda gosod software newydd ynddynt i gyd-fynd gyda software rhai Gilfach Ddu gan fod y software mae CG yn ei ddefnyddio yn 'crasho' o hyd maent wedi osgoi defnyddio'r un yma.
**Hafod Eryri –** Tymor Hafod Eryri wedi dod i ben, y Rheilffordd yn ceisio cyd-weithio gyda'r Heddlu er mwyn ceisio cael ymweliadau cyson gan PCSO ar benwythnosau y tymor nesaf yn dilyn digwyddiadau gwrth-gymdeithasol gan ymwelwyr tuag at staff.